Community Housing Cymru

# Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru

## Mawrth 2022

## Cynnwys


- Cyflwyniad
- Penawdau allweddol
  - Grant Tai Cymdeithasol
  - Cynllun Tir ar gyfer Tai
  - Digartrefedd
  - Diogelwch adeiladau
  - Datgarboneiddio
- Meysydd eraill o wariant
  - Iechyd a gofal cymdeithasol
  - Argyfwng cost byw
- Casgliad

# Cyflwyniad

Mae ymrwymiad i greu "Cymru gryfach, decach a mwy cyfartal" yn ganolog i [gyllideb derfynol 2022-23 Llywodraeth Cymru.](#) Caiff hyn ei ddangos yn ei gwariant ar dai, datblygu, adfywio, gwasanaethau cyhoeddus a hybu'r economi, yn ogystal â'i hymateb uniongyrchol i'r argyfwng cost byw.

Mae'r gyllideb hon yn cadarnhau'r ymrwymiad aml-flwyddyn cyntaf yn dyrannu cyfanswm o £965m mewn Grant Tai Cymdeithasol dros dair blynedd. Caiff £310m ei fuddsoddi drwy'r grant hwn yn 2022-23, cynnydd o £60m ers y llynedd. Mae'r dyraniad cyllid uchaf erioed hwn yn amlygu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adeiladu cartrefi fforddiadwy, ansawdd da a'u hyder yn y sector tai cymdeithasol.

Cafodd Grant Cymorth Tai ei gadw ar £166m am y tair blynedd nesaf. Er bod CHC a Cymorth wedi galw am i hyn gael ei gynyddu gyda chwyddiant, mae'n dal yn dda gweld cyllid fydd yn galluogi darparu gwasanaethau cymorth tai hanfodol i gadw tenantiaid yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r gyllideb yn ymateb i'r argyfwng cost byw drwy gario £180m o gyllid o 2021-21 ymlaen tu allan i drefniadau Cronfa wrth Gefn Cymru i gyllido mesurau ychwanegol. Mae hyn yn rhan o gyfanswm pecyn o £330m ar gyfer 2022-23.

Mae'r buddsoddiadau a nodwyd heddiw yn rhoi llwyfan clir i'r sector i gyflenwi 20,000 o gartrefi fforddiadwy sy'n ddiogel ac yn effeithiol o ran ynni. Mae cyllideb heddiw yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau fod pob cartref i fyny i'r safon yn nhermau rheoliadau adeiladu a datgarboneiddio.

# Prif benawdau

- **Dyraniad £965m o Grant Tai Cymdeithasol** dros 3 blynedd
    - £310m yn 2022/23
    - £330m yn 2023/24
    - £325m yn 2024/25
- **£8m ychwanegol ar gyfer y cynllun Tir ar gyfer Tai** i alluogi'r sector i sicrhau safleoedd tir a chefnogi cadwyn cyflenwi datblygu tai
- **Buddsoddiad cyfalaf o £375m mewn diogelwch adeiladau** hyd at 2024/25
- Cadw'r Grant Cymorth Tai ar linell sylfaen o £166m am y tair blynedd nesaf
- £100m o fuddsoddiad mewn Tlodi Tanwydd a Chartrefi Cynnes
- **£15m ychwanegol** i ateb y galw parhaus ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol
- **Buddsoddiad o £1m** i ddatblygu Unnos
- Cyllid i ddelio gydag effeithiau'r pandemig, yn cynnwys £100m ar gyfer iechyd meddwl
- Buddsoddiad o £1.8bn wedi'i dargedu dros y tair blynedd nesaf i gydlynu ymateb i'r argyfwng hinsawdd a buddsoddiad mewn natur
- **£750m o fuddsoddiad mewn awdurdodau lleol.** Mae'r gyllideb hon yn amlygu fod awdurdodau lleol yn hanfodol i gyflenwi gwasanaethau addysg, gofal cymdeithasol a thai cymdeithasol
- **£330m i ymateb i'r argyfwng cost byw**
    - £180m wedi'i gario trosodd o 2021-22
    - £162m cyllid o 2022-23

**Grant Tai Cymdeithasol**

Gwnaed cyfanswm buddsoddiad o £310m mewn Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2022/23. Mae hyn yn dod o fewn pecyn £1bn aml-flwyddyn ar gyfer tai cymdeithasol. Dyma'r buddsoddiad uchaf erioed mewn Grant Tai Cymdeithasol yn oes llywodraeth ddatganoledig ac mae'n adeiladu ar y £250m a ddyrannwyd yn 2021/22. Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn galluogi'r sector i barhau i adeiladu cartrefi newydd effeithol o ran ynni a chyfrannu at wneud Cymru yn lle tecach a gwyrddach.

**Cynllun Tir ar gyfer Tai**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £8m ychwanegol i gynllun llwyddiannus Tir ar gyfer Tai ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bydd hyn yn galluogi'r sector i gynyddu'r cyflenwad o dai a pha mor gyflym y caiff safleoedd tir eu sicrhau a chefnogi'r gadwyn cyflenwi datblygu tai.

**Digartrefedd**

Dynodwyd cyllid sylweddol yng nghyllideb eleni i fynd i'r afael â digartrefedd yn dilyn lobio ar y cyd gan CHC a Cymorth. Cadwyd y Grant Cymorth Tai ar linell sylfaen o £166m am y tair blynedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu pecyn ychwanegol o £27.5m refeniw hyd at 2024-25 i hybu buddsoddiad mewn atal digartrefedd a chymorth tai ar draws Cymru.

Er fod y dyraniadau cyllid hyn yn y ddrafft gyllideb wedi parhau'r un fath, mae'r gyllideb derfynol yn dyrannu £10m i Tai Ffres, partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Llamau ac United Welsh. Bydd y cyllid yn cefnogi  llwybr tai arall a sefydlodd Tai Ffres ar gyfer pobl ifanc 16 i 25 oed nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwasanaethau digartrefedd, neu na fyddai'r llwybr traddodiadol o wasanaethau llety â chymorth yn addas ar eu cyfer.

**Diogelwch adeiladau**

Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £6.5m o refeniw ychwanegol a chyfanswm o £375m o gyfalaf hyd at 2024-25 i ddiogelwch adeiladau.

**Datgarboneiddio**

Mae'r gyllideb derfynol hon yn dyrannu £35m ychwanegol ar ben y £72m o gyfalaf cyffredinol a ddyrannwyd eisoes yn y ddrafft gyllideb. Fe'i defnyddir i brofi a datblygu modelau cyllid newydd i helpu cyflymu maint a chyflymder datgarboneiddio cartrefi Cymru. Dyrannwyd y cyllid hwn o Gyfalaf Trafodion Ariannol (math o gyllid a gytunwyd rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru). Bydd CHC yn parhau i weithio gydag aelodau a Llywodraeth Cymru i egluro cynlluniau cyllid tymor canol ar gyfer cyflymu datgarboneiddio tai cymdeithasol.

## Meysydd eraill o wariant

**Iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae'r gyllideb hon yn dyrannu buddsoddiad o £250m mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac yn rhoi manylion rhaglen cyllid tair blynedd fydd yn rhedeg rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2025. Bydd y cyllid hwn yn cynorthwyo integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cyhoeddodd CHC bapur gwybodaeth yn benodol ar y cyllid hwn yn ddiweddar sydd ar gael yma.

Mae penderfyniadau cyllideb Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd a gwasanaethau llywodraeth leol. Yn ogystal â'r cynnydd yn y cyllid craidd heb ei neilltuo ar gyfer llywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu £60m ychwanegol o gyllid grant penodol hyd at 2023-25 i hyrwyddo diwygio a gwella gofal cymdeithasol.

**Argyfwng cost byw**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pecyn o fesurau £162.4m arall yn 2022-23 ar sail cyfyngedig am un flwyddyn sy'n anelu i helpu aelwydydd incwm isel i ateb y pwysau uniongyrchol ar gost byw y gaeaf hwn a gostwng effaith y toriad i'r Credyd Cynhwysol,  Credyd Treth Gwaith a'r cynnydd yng nghost ynni.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Buddsoddiad o £90m i ymestyn darpariaeth bresennol Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf am flwyddyn arall i redeg y gaeaf nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau y gall mwy o bobl gael mynediad i'r gronfa hon a bydd yn ehangu'r ystod o aelwydydd incwm isel fydd yn gymwys.
- Darparwyd £15m ychwanegol i ymestyn y Gronfa Cymorth Dewisol i 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn gynnydd o'r £7m a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft. Cafodd hefyd ei ymestyn i helpu gyda rhai costau ynni (costau ynni heb fod ar y grid).
- Darparwyd £1.6m ar gyfer y Gronfa Cyngor Sengl, fydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth ar gynyddu incwm
- £2.9m i greu pecynnau bwyd cynaliadwy. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys dyraniad o £1m ar gyfer gweithredu lleol i fynd i'r afael â lefelau cynyddol o dlodi tanwydd.

Mae hefyd yn werth nodi barn y Prif Economegydd ar effaith yr argyfwng cost byw ar Gymru. Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae llawer o bwysau prisiau yn debyg o fod dros dro, ond bydd pwysau ar brisiau ynni yn parhau'n hirach.
- Mae Cymru yn neilltuol agored i effaith chwyddiant uchel ar brisiau ynni oherwydd y gyfran o aelwydydd Cymru sydd ar incwm isel ac effeithiolrwydd ynni gwaelach mewn cartrefi.
- Mae'r Prif Economegydd yn nodi'r effaith a gaiff cartrefi oer ar iechyd a marwoldeb, ynghyd ag effaith cynyddol cost byw ar wahanol aelwydydd lleiafrif ethnig, pobl anabl a rhai grwpiau mewn-risg, yn cynnwys pobl LGBT, gofalwyr, pobl ddigartref, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a phobl gyda gwahanol fathau o nam.

## Casgliad

Mae cyllideb derfynol Cymru yn iawn i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ymhellach â'r argyfwng mewn cost byw a newid hinsawdd.

Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer y cynllun Tir ar gyfer Tai hefyd yn cael ei groesawu'n gynnes, yn ogystal â'r buddsoddiad uchaf erioed mewn tai cymdeithasol. Mae'r cyllid ar gyfer profi modelau ar ddatgarboneiddio hefyd yn gam cadarnhaol a byddwn yn anelu i gysylltu gyda swyddogion yn yr wythnosau nesaf i ddeall ei ffocws yn well.

Drwyddi draw, mae'r gyllideb derfynol yn anfon neges gryf a chlir o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector mewn adeiladu cartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy ar draws y wlad dros gyfnod y Senedd hon. Mae'r bleidlais hyder yr oedd ein haelodau yn edrych amdani.

*I drafod y papur gwybodaeth hwn, cysylltwch â Laura Courtney a Paul Thompson, Penaethiaid Polisi a Materion Allanol*
*Laura-Courtney@chcymru.org.uk*
*Paul-Thompson@chcymru.org.uk*